

Bathodyn Her Hawliau

Sgowtiaid/Geidiau



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Croeso i'r Bathodyn Her Hawliau



Fy enw i yw Sally a fi yw Comisiynydd Plant Cymru.

Mae'r Bathodyn Her Hawliau wedi cael ei greu ar dy gyfer di, er mwyn i ti allu dysgu am hawliau plant a'm gwaith i fel Comisiynydd Plant Cymru.

Mae'r llyfr gwaith yma'n llawn o weithgareddau hwyliog i ti a bydd cyfle i ti lenwi Taflen Weithgaredd ar ddiwedd pob gweithgaredd.

Ar ddiwedd yr Her, byddi di:

- Yn gwybod am hawliau plant. Mae'r holl hawliau sydd gennynt ti wedi cael eu hysgrifennu mewn rhestr fawr o'r enw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Yn gwybod amdana i, Comisiynydd Plant Cymru, a'r pwerau arbennig sydd gen i
- Yn gwybod o ble gallet ti gael rhagor o wybodaeth am dy hawliau
- Yn gallu dweud wrth dy deulu a'th ffrindiau am dy hawliau.

Rydw i'n edrych ymlaen at gael gwybod sut hwyl rwyt ti a'th Griw/Uned yn ei chael ar y Bathodyn Her Hawliau.

Gallet ti roi gwybod i mi, trwy ofyn i'th arweinydd anfon diweddariad ata i mewn neges e-bost i post@complantcymru.org.uk, neu gallet ti gymryd rhan yn ein #AwrHawliau ar Twitter.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnat ti am hawliau, gallet ti edrych ar fy ngwefan:

www.complantcymru.org.uk



Cynnwys:

Gweithgaredd 1: Corff o Hawliau

Yn y gweithgaredd yma, byddi di'n edrych ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r pethau sydd eu hangen arnat ti i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Gweithgaredd 2: Hawliau yn dy gymuned

Mae'r gweithgaredd yma yn ffordd hwyliog i ti feddwl am dy gymuned a'r hawliau sydd gen ti yn y gymuned honno.

Gweithgaredd 3: Sally a'i phwerau

Yn y gweithgaredd yma, byddi di'n dysgu am Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, a'r pwerau sydd ganddi.

Gweithgaredd 4: Creu dy weithgaredd dy hun

Gan ganolbwyntio ar hawliau plant neu ar Sally Holland, dyfeisia dy weithgaredd dy hun i'w rannu â gweddill dy Griw/Uned


Gweithgaredd 5: Fy Mathodyn Her Hawliau

Mae hwn yn weithgaredd byr sy'n gyfle i ti feddwl am yr hyn rwyf ti wedi'i ddysgu



Gweithgaredd 1: Corff o Hawliau

Yn y gweithgaredd yma, byddi di'n meddwl am hawliau plant a'r pethau sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.




Bydd angen:

Taflen weithgaredd corff o hawliau

Pinnau ysgrifennu/pensiliau lliw


Poster Deall Dy Hawliau neu Becyn Symbolau

Gwneud y gweithgaredd:




1. Tynna lun person ar dy daflen waith Corff o Hawliau a'i addurno
2. Meddylia am 5 peth sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc er mwyn tyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Ysgrifenna'r syniadau yma neu tynna lun ohonyn nhw tu mewn i'r person
3. Gofynna am gopi o'r poster "Deall Dy Hawliau" neu'r Pecyn Symbolau ac edrych i weld ydy'r pethau rwyd ti wedi meddwl amdany'n nhw ar y poster. Os gweli di unrhyw hawliau rwyd ti'n meddwl eu bod nhw'n bwysig er mwyn tyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel, ychwanega nhw tu mewn i'r person
4. Meddylia am bobl allai dy helpu i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel ac ysgrifenna'r rheiny o amgylch y corff.

Gweithgaredd 1: Taflen Weithgaredd Corff o Hawliau



Mae'r gweithgaredd yma'n ffordd hwyliog i ti feddwl am dy gymuned a'r hawliau sydd gen ti yn y gymuned honno.

Gallet ti roi cynnig ar y gweithgaredd yma gyda gweddill dy Griw/Uned.



Bydd angen:

Papur mawr (rholiau o bapur yn ddelfrydol)

Pinnau ysgrifennu a phensiliau

Poster Deall Dy Hawliau/Cardiau Symbolau

Nodiadau 'Post-it' (gallet ti ddefnyddio papur a thâp gludiog hefyd)




Gwneud y gweithgaredd:

1. Gan ddefnyddio darn mawr o bapur ac ychydig o binnau ysgrifennu, gwna fap o'th gymuned leol; rho fan cyfarfod dy Griw/Uned ar ganol y map. Cei di fod mor greadigol ag y mynni wrth lunio'r map. Gofala dreulio amser yn labelu'r gwahanol fannau yn dy gymuned sy'n bwysig i ti.
2. Gan ddefnyddio nodiadau 'Post-it' a'r poster Deall Dy Hawliau, dechreua gysylltu mannau yn dy gymuned â'th hawliau, er enghraifft, gallet ti ddechrau â man cyfarfod dy Griw/Uned ac Erthygl 15 - yr hawl i gyfarfod â ffrindiau ac ymuno â grwpiau.
3. Ar gyfer rhan olaf y gweithgaredd yma, bydd angen i ti feddwl am unrhyw le yn dy gymuned lle dyw dy hawliau ddim yn cael eu cynnal. Gallet ti feddwl hefyd am beth allai newid. Gallet ti wneud hyn ar dy ben dy hun neu gyda gweddill dy Uned/Griw. Bydd gan dy arweinydd ddalen gymorth os byddi di eisiau cysylltu â gwasanaethau yn dy gymuned leol gyda syniadau ar gyfer newid.

Gweithgaredd 3: Sally Holland a'i Phwerau

Yn y gweithgaredd yma, byddi di'n dysgu rhagor am Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, a'i gwaith.




Bydd angen:

Papur

Pinnau ysgrifennu/pensiliau

Gwybodaeth am Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru



Gwneud y gweithgaredd:

1. Darllena'r wybodaeth am Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru.

2. Llunia dy boster dy hun am Sally Holland a'i rôl i'w rannu gyda'th Griw/Uned. Gofala gynnwys gwybodaeth am wasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor y Comisiynydd.

Taflen Wybodaeth am Sally Holland a'i Phwerau Arbennig

Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru.

Ei gwaith hi yw sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y pethau sydd eu hangen arny'n nhw er mwyn tyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Mae gan Sally 5 Pŵer Arbennig. Mae hi:



Yn **gwranddo** ar blant a phobl ifanc yng Nghymru



Yn **helpu** plant a phobl ifanc i ddysgu am eu hawliau



Yn **rhoi cyngor** i blant sydd ddim yn derbyn eu hawliau.



Yn gwneud yn siŵr bod y llywodraeth yn parchu hawliau plant



Yn **codi llais** dros blant a phobl ifanc yng Nghymru ar faterion pwysig

Yn ogystal, mae gan Gomisiynydd Plant Cymru wasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor.

Mae'r gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor yn wasanaeth cyfrinachol, am ddim, ac yn helpu a chefnogi plant a phobl ifanc sy'n teimlo eu bod nhw wedi cael eu trin yn annheg.

Oes angen i ti siarad â ni?


Ffonia ni am ddim: 0808 801 1000

E-bost: cyngor@complantcymru.org.uk

Ar agor: dydd Llun i ddydd Gwener (heblaw Gwyliau Banc) o 9.00am tan 5.00pm

Gweithgaredd 4: Creu dy weithgaredd dy hun

Yn y gweithgaredd yma, byddi di'n creu dy gêm neu dy syniad dy hun gan ganolbwyntio ar hawliau plant neu ar Gomisiynydd Plant Cymru.




Bydd angen:

Papur

Pinnau ysgrifennu/pensiliau

Poster Deall Dy Hawliau/Cardiau Symbolau



Gwneud y gweithgaredd:

1. Meddylia am y gweithgareddau rwyt ti wedi eu gwneud yn barod ar gyfer dy Fathodyn Her Hawliau
2. Dyfeisia weithgaredd newydd i'w rannu â gweddill dy Uned/Griw
3. Defnyddia ein gwefan i'th helpu i feddwl am weithgareddau newydd: www.complantcymru.org.uk/adnoddau
4. Rhanna dy weithgaredd newydd â gweddill dy Uned/Griw!

Gweithgaredd 5: Fy Mathodyn Her Hawliau

Unwaith y byddi wedi gorffen Gweithgareddau 1, 2, 3 a 4, llenwa'r daflen yma a'i rhoi i arweinydd y pac. Byddan nhw'n gallu ei gwirio cyn i ti gael dy fathodyn.

1. Oeddet ti'n gwybod am hawliau plant cyn y bathodyn yma? (rho gylch o amgylch dy ateb)

OEDDWN

NAC OEDDWN

DDIM YN GWYBOD

2. Ysgrifenna neu tynna lun un o'r hawliau plant rwyt ti'n cofio amdani.

3. Beth yw enw Comisiynydd Plant Cymru?

4. Ble rwyt ti'n gallu cael rhagor o wybodaeth am hawliau plant?

5. Disgrifia'r gêm y gwnest ti ei dyfeisio ar gyfer gweithgaredd 4.